Hysbysiad archwilio lle nad yw'r Swyddog Cyllid Cyfrifol yn gallu ardystio'r cyfrifon oherwydd nad yw'r cyfrifon wedi eu paratoi.

Mae Rheoliad 10(1) yn Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'u diwygwyd) yn ei gwneud yn ofynnol bod Swyddog Cyllid Cyfrifol Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn llofnodi'r datganiad cyfrifon ac yn rhoi dyddiad arno, ac yn ardystio'i fod yn cyfleu darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y corff ar ddiwedd y flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi, ac o incwm a gwariant y corff hwnnw am y flwyddyn honno. Yn ôl y Rheoliadau 'roedd yn ofynnol cwblhau hyn erbyn 31 Mai 2020.

Nid yw'r Swyddog Cyllid Cyfrifol wedi llofnodi ac ardystio'r cyfrifon am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020. Mae'r pandemig COVID-19 wedi achosi cryn newid mewn trefniadau gwaith yr Awdurdod ynghyd â gwaith ychwanegol i'r gwasanaeth Cyllid, ac felly'n arwain at oediad gyda chwblhau'r datganiad cyfrifon. Serch hynny, bydd y datganiad cyfrifon yn cael ei gwblhau cyn gynted a phosibl ac o fewn amserlen ddiwygiedig Llywodraeth Cymru. Bryd hynny bydd y Swyddog Cyllid Cyfrifol yn llofnodi ac yn ardystio'r datganiad cyfrifon.

Audit notice where the Responsible Financial Officer is unable to certify the accounts because the accounts have not been prepared.

Regulation 10(1) of the Accounts and Audit (Wales) Regulations 2014 (as amended) requires that the Responsible Financial Officer of Snowdonia National Park Authority sign and date the statement of accounts, and certify that it presents a true and fair view of the financial position of the body at the end of the year to which it relates and of that body's income and expenditure for that year. The Regulations required that this be completed by 31 May 2020.

The Responsible Financial Officer has not signed and certified the accounts for the year ended 31 March 2020. The COVID-19 pandemic has caused considerable change in the Authority's working arrangements together with extra work for the Finance service, and as such has resulted in a delay in completing the statement of accounts. The statement of accounts, though, will be completed as soon as possible and within Welsh Government's revised timetable. At that time the Responsible Financial Officer will sign and certify the statement of accounts.

AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI
Penrhyndeudraeth • Gwynedd • LL48 6LF
Ffôn/Tel 01766 770274 Ffacs/Fax: 01766 771211
parc@eryri.llyw.cymru
www.eryri-npa.gov.uk